**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf**

**28 Chwefror 2025**

0900 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Peter Strachan, Jan Chaudhry Van der Velde, Marie Daly, a Julian Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol Cysylltiol).

**Hefyd yn bresennol**

Sam Hadley, Jeremy Morgan a Seamus Scallon.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

**1a. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nick Millington (NM).

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datgan Buddiant**

Cadarnhaodd yr aelodau fod eu datganiadau o fuddiannau yn dal yn gyfredol ac nad oedd unrhyw fuddiannau ychwanegol i'w datgan yn ymwneud yn benodol ag eitemau ar yr agenda. Cyfarwyddwyr TfW Fibre Ltd yw Heather Clash, Alexia Course a James Price.

**2. Sylw i ddiogelwch**

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am 'Maroon Dragon' – ymarfer hyfforddi byw llwyddiannus gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydain a gynhaliwyd yng ngorsaf Caerdydd Canolog a Chyfnewidfa Fysiau Caerdydd. Roedd yr ymarfer yn efelychu senarios diogelwch i brofi beth fyddai'n digwydd mewn digwyddiad go iawn. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i brofi'r gallu i ryngweithredu rhwng TrC a swyddogion Heddlu Trafnidiaeth Prydain wrth ymateb i ddigwyddiad mawr.

**3. Sylw i Gwsmeriaid**

Cynhaliwyd ymarfer yn ddiweddar i adolygu risgiau a phroblemau y gwyddom sy'n gysylltiedig â Systemau Gwybodaeth i Deithwyr, a blaengynllun ar gyfer gwaith i'w wneud yn 2025. Cytunodd y Bwrdd fod angen cynllun tymor canolig **[Gweithredu – Marie Daley]** ac adolygu hyd y cyhoeddiadau ar y trenau **[Gweithredu – Marie Daley a Sam Hadley]**.

**4. Cofnodion a Chamau Gweithredu**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 31 Ionawr 2025, nid y Log Camau Gweithredu.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Derbyniodd a nododd y Bwrdd drosolwg o adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau. Roedd y prif bwyntiau trafod yn cynnwys:

- Roedd tywydd gwael wedi cael effaith ar y cyfnod, ond mae cyfnod diweddar o dywydd gwell wedi arwain at berfformiad gwell, gyda chymorth gwell argaeledd o ran fflyd.
- Gwelodd adroddiad archwilio ar arferion a galluoedd cynnal a chadw yn nepo Caer gynnydd yn argaeledd dyddiol trenau Dosbarth 197 yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cytunwyd y bydd yr adroddiad yn cael ei rannu **[Gweithredu – Jan Chaudhry Van der Velde]** a bydd llythyrau misol yn cael eu cyfnewid rhwng CAF a TrC gyda llywodraethau Cymru a'r DU ar berfformiad depos **[Gweithredu – James Price]**.
- [redacted]
- Er bod perfformiad diweddar ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd yn parhau i wella, mae problemau'n parhau, yn enwedig gyda rheilffyrdd Coryton a Phenarth oherwydd yr amserlen dynn, gyda phob gwasanaeth yn cael cyn lleied o amser cwblhau â phosibl. Mae unrhyw oedi'n arwain at derfynu neu hepgor arosfannau ac mae tarfu bron bob dydd yn effeithio ar hyder cwsmeriaid. [redacted] Cytunodd y Bwrdd fod angen edrych ar yr achos dros ragor o fuddsoddiad yn rheilffyrdd y Ddinas a Coryton ar gyfer gwasanaeth mwy dibynadwy, ac i ddod â dadansoddiad strategol o'r opsiynau cyfalaf a'r effeithiau ar refeniw yn ôl i'r Bwrdd **[Gweithredu – Jan Chaudhry Van der Velde]**.
- Yn ddiweddar, mae grwpiau gwleidyddol a rhanddeiliaid wedi codi problem gorlenwi ar goridor Amwythig – Wrecsam – Caer. Mae gwaith yn cael ei wneud i ddod o hyd i atebion tymor byr. Gellid lliniaru'r sefyllfa drwy addasu'r signalau yng Ngobowen, a chytunwyd y dylid adolygu cynlluniau blaenorol ar gyfer y newidiadau hyn gyda'r posibilrwydd o brisiad annibynnol **[Gweithredu – Alexia Course]**.
- [redacted]
- Darparwyd diweddariadau ar fan gollwng bogi Treganna, agor maes parcio Pont-y-pŵl, perfformiad Network Rail, a chynnydd mewn perthynas â thrafodaethau GBR.

**5.1 Adroddiad Strategol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol**
Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**5.2 Adroddiad Strategol ar Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd a Chadernid**

Cafodd y Bwrdd wybodaeth am gynnwys yr Adroddiad ar Iechyd, Diogelwch, yr Amgylchedd a Chadernid a'r gwaith parhaus i ddeall y metrigau a'r data sylfaenol yn well. Nododd y Bwrdd waith parhaus ar adfywio egwyddorion achub bywyd, parodrwydd ar gyfer yr hydref a pharatoadau ar gyfer tywydd eithafol. Trafododd y Bwrdd gynnwys adroddiad digwyddiadau diweddar Margam, a'r gwersi i'w dysgu a'u defnyddio gan Rheilffyrdd TrC.

**6. Dangosfwrdd Risg Rheilffyrdd**

Wedi'i nodi.

*Gadawodd Seamus Scallon y cyfarfod.*

**7. Y Newyddion Diweddaraf am y Gororau**

*Ymunodd Piers Croft â'r cyfarfod.*

Nododd y Bwrdd berfformiad refeniw ar lwybr y Gororau yn ystod Cyfnod 11 ar draws gwasanaethau safonol a dosbarth cyntaf. [redacted]

Trafododd y Bwrdd berfformiad argaeledd fflyd a data ar ddyraniad unedau yn erbyn y cynllun **[Gweithredu – Piers Croft]** a'r cynllun tymor canolig i dymor hir ar gyfer gwasanaethau MKIV.

Nododd y Bwrdd gynlluniau ar gyfer bwydlen dosbarth cyntaf newydd o fis Ebrill ymlaen.

*Gadawodd Piers Croft y cyfarfod.*

**8. Adolygiad ariannol**

*Ymunodd Stephanie Raymond (SR) â'r cyfarfod.*

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol o Gyfnod 11 a'r flwyddyn hyd yma. Nododd y Bwrdd hefyd fod hawliadau Atodlen 4 wedi cael eu cyflwyno gyda'r canlyniad yn yr arfaeth.

Trafododd y Bwrdd effaith tywydd garw ar refeniw a'r angen am strategaeth weithredol

**[Gweithredu – Marie Daly]**.

[redacted]

*Gadawodd Stephanie Raymond (SR) y cyfarfod.*

**9. Diweddariad Masnachol**

*Ymunodd Chris Williams (CW) â'r cyfarfod.*

[redacted] Roedd y Bwrdd yn croesawu'r ffaith bod TrC yn gwneud yn well na'r diwydiant drwyddo draw o ran refeniw teithwyr, niferoedd ac arenillon wrth gymharu â'r sefyllfa cyn COVID. Nododd y Bwrdd hefyd sefyllfa refeniw y gwasanaeth Traws.

Darparwyd diweddariadau ar ddata rhwydwaith ffonau symudol a chynlluniau rheoli refeniw parhaus ac arfaethedig.

**10. Tocynnau cosb**

[redacted]

**11. Diweddariad ar Talu wrth Fynd**

[redacted]

**12. Diweddariad marchnata**

Nododd y Bwrdd yr adroddiad marchnata ar gyfer Cyfnod 11 a chafodd y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad, metrigau manwerthu, metrigau brand, ac ymgysylltu ag asiantaethau newydd fel rhan o'r broses ehangach o ailosod gweithgareddau marchnata.

**13. Derbyn Dosbarth 197/398**

Nododd y Bwrdd fod y dasg o dderbyn Dosbarth 197/398 ar y gweill.

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.